

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Bwrpasol Newydd

### **Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn ofalus cyn i chi gwblhau ffurflen gais B8 - trwydded bwrpasol newydd ar gyfer gweithgarwch perygl llifogydd.**

O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, mae angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd ar gyfer mathau penodol o waith o fewn, uwchben, o dan neu'n agos at unrhyw brif afon neu amddiffyn rhag llifogydd (gan gynnwys amddiffynfeydd môr).

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn rhoi gwybodaeth i'ch helpu chi i gwblhau ffurflen gais B8 ar gyfer trwydded bwrpasol newydd ar gyfer gweithgarwch perygl llifogydd. Dilynwch y cyfarwyddyd hwn i helpu i osgoi oedi yn eich cais.

Ble y gwelwch chi'r term 'cyfeirnod dogfen', rhowch y cyfeirnod/cyfeirnodau dogfen perthnasol ac anfon y dogfennau i mewn gyda'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau. Sylwer os byddwch chi'n darparu dogfennau nad ydynt yn ofynnol, ni fydd y rhain yn cael eu hasesu.

Cyn cwblhau'r ffurflen hon, rydym yn argymhell eich bod chi'n cysylltu â ni am gyngor ynglŷn â'ch cais.

Mae gennym ddau fis i wneud penderfyniad ar eich cais. Os yw'r gweithgarwch arfaethedig yn debyg o gael effaith niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd, gallai'r cyfnod penderfynu gymryd hyd at 4 mis.

### **Cynnwys**

1. Amdanoch chi
2. Manylion cyswllt
3. Ynglŷn â'r drwydded
4. Ynglŷn â'r safle/tir
5. Disgrifiad a diben y gwaith arfaethedig
6. Cynlluniau a thrawsluniau
7. Manylion adeiladu
8. Buddiannau Eraill Cyfoeth Naturiol Cymru
9. Statws cynllunio
10. Cynnal y strwythur(au)
11. Effeithiau ar yr amgylchedd
12. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
13. Cyfrinachedd
14. Diogelwch Cenedlaethol
15. Datganiad
16. Ble i anfon y ffurflen hon
17. Cysylltwch â ni

### **1. Amdanoch chi**

Ydych chi'n ymgeisio fel unigolyn, sefydliad o unigolion (e.e. partneriaeth), cwmni neu gorff cyhoeddus?

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Arbennig Newydd

Ticiwch y bocs sy'n eich disgrifio fel ymgeisydd. Os ydych yn gwneud cais fel corff cyhoeddus neu gwmni, rhowch eu henw. Gallwch roi i ni hefyd unrhyw enw masnachu neu bartneriaeth os ydych yn ymgeisio fel unigolyn neu sefydliad o unigolion.

Mae sefydliad o unigolion yn cynnwys grŵp o unigolion sydd gyda'i gilydd yn dal trwydded gweithgarwch perygl llifogydd.

### Yna rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol (1b-e) ar y ffurflen gais.

#### 1b Ceisiadau gan unigolyn

Llenwch y manylion ar gyfer pob ymgeisydd. Gallwn roi trwydded i unigolion a enwyd yn unig.

#### 1c Ceisiadau gan sefydliad o unigolion

Llenwch y manylion o'r math ac unrhyw enw masnachu. Os ydych yn sefydliad o unigolion (er enghraifft, elusen, partneriaeth, grŵp o unigolion neu glwb) rhowch fanylion y **prif gynrychiolydd**. Gallwn roi trwydded i unigolion a enwyd yn unig. Ni allwn roi trwydded gweithgarwch perygl llifogydd i bartneriaeth. Felly byddwn angen manylion pob person yn y bartneriaeth. Os bydd angen, defnyddiwch dudalen ar wahân i roi manylion ymgeiswyr ychwanegol a dywedwch wrthym beth yw cyfeirnod y ddogfen yn y gofod a roddwyd ar y ffurflen.

**Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig** – peidiwch â llenwi'r adran hon; ewch i adran 1e.

#### 1d Ceisiadau o gyrff cyhoeddus

Llenwch y manylion o'r math, enw'r corff cyhoeddus ac enw'r gweithredwr sy'n gyfrifol.

**Math o gorff cyhoeddus** – dewiswch o fyrddau iechyd lleol, byrddau iechyd eraill, awdurdodau unedol, awdurdodau llywodraeth eraill, awdurdod tân, corff cyhoeddus arall.

**Y gweithredwr** yw unrhyw berson o fewn y corff cyhoeddus sydd wedi'i awdurdodi i arwyddo ar ei rhan.

#### 1e Ceisiadau o gwmni cofrestredig neu gorff corfforaethol arall

Rhowch rif cofrestru'r cwmni a'r dyddiad pryd y cafodd ei gofrestru.

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Arbennig Newydd

**Cyrff corfforaethol heb eu cofrestru:** Os ydych yn gorff corfforaethol heb ei gofrestru, byddwch angen dangos tystiolaeth eich bod yn gorff cyfreithiol cyn i ni roi trwydded i chi.

### 1f Eich prif gyfeiriad (swyddfa gofrestredig)

Bydd angen hwn yn unig os yw'n wahanol i'ch prif gyfeiriad busnes (e.e. cwmnïau wedi'u cofrestru tramor).

Gallwn roi trwydded i unigolion a enwyd yn unig. Ni allwn roi trwydded i bartneriaeth. Rydym felly eisiau manylion pob person yn y bartneriaeth. Os bydd angen, defnyddiwch dudalen ar wahân i roi manylion ymgeiswyr ychwanegol a dywedwch wrthym beth yw cyfeirnod y ddogfen yn y gofod a roddwyd ar y ffurflen..

### Prif gyfeiriad busnes y Du (os yn wahanol i'r uchod)

Bydd angen hwn yn unig os yw'n wahanol i'ch prif gyfeiriad busnes (e.e. cwmnïau wedi'u cofrestru tramor).

Gallwn roi trwydded i unigolion a enwyd yn unig. Ni allwn roi trwydded i bartneriaeth. Rydym felly eisiau manylion pob person yn y bartneriaeth. Os bydd angen, defnyddiwch dudalen ar wahân i roi manylion ymgeiswyr ychwanegol a dywedwch wrthym beth yw cyfeirnod y ddogfen yn y gofod a roddwyd ar y ffurflen.

## 2. Manylion cyswllt

Bydd yn ddefnyddiol i ni gael manylion rhywun y gallwn gysylltu ag ef os bydd gennym unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch cais. Dylai'r person a enwir fod â'r awdurdod i weithio ar eich rhan. Gallant fod yn asiant yn hytrach na deiliad trwydded.

Os yw'r wybodaeth gyswllt a roddwyd yma yn wahanol i'r un ar gyfer materion anfonebu, dywedwch wrthym a rhowch fanylion cyswllt ar gyfer materion anfonebu ar daflen ar wahân. Rhowch gyfeirnod a roddoch i'r daflen hon yn y gofod addas.

## 3. Ynglŷn â'ch trwydded

### 3a Trafodaeth cyn eich cais

Os ydych chi wedi trafod eich cais gyda ni cyn cyflwyno'ch cais, dywedwch wrthym beth yw'ch cyfeirnod a/neu ddarparu manylion ar ddalen ar wahân. Dylid rhoi cyfeirnod ar unrhyw ddalennau ar wahân, a rhaid ei gofnodi ar y ffurflen gais yn y gofod a ddarperir. Bydd hyn yn caniatáu i ni gyfeirio yn ôl at y wybodaeth yr ydych chi eisoes wedi'i rhoi i ni a helpu i bennu'ch cais.

Os ydych chi angen cyfarwyddyd pellach ar drafodaethau cyn-ymgeisio, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu trwy anfon e-bost at: [e-bost ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).

### 3b Pa fath o weithgarwch perygl llifogydd yr ydych chi'n ymgeisio ar ei gyfer?

Dewiswch y math o weithgarwch yr ydych chi'n ymgeisio ar ei gyfer. Rhestrir y gweithgareddau perygl llifogydd y mae angen trwydded ar eu cyfer yn Atodlen 23AA Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Mae hyn yn cynnwys

- pob gwaith (naill ai dros dro neu barhaol) o fewn, uwchben neu o dan brif afon;
- unrhyw waith sy'n debygol o effeithio ar lif neu gyfeiriad dŵr i mewn neu allan o'r brif afon, a allai ddargyfeirio neu gynnwys llifddwr, neu newid lefel y dŵr i unrhyw ran o'r brif afon
- unrhyw garthu, codi neu dynnu deunyddiau (gan gynnwys tywod, llaid, balast, clai a graean) oddi ar wely neu lannau'r brif afon
- unrhyw weithgareddau o fewn 8m i brif afon nad yw'n un llanw, strwythurau amddiffyn rhag llifogydd neu geuffos ar yr afon honno neu o fewn 16m i brif afon llanw, strwythurau amddiffyn rhag llifogydd neu geuffos ar yr afon honno sy'n debyg o -
  - achosi difrod neu beryglu sefydlogrwydd glannau'r afon honno neu unrhyw geuffos
  - achosi difrodi i unrhyw waith rheoli afon
  - newid, ailadeiladu, atal neu dynnu unrhyw waith rheoli afon
  - dargyfeirio neu rwystro llifddwr neu effeithio ar ddraenio'r afon honno, neu ymyrryd â mynediad y rheoleiddiwr at yr afon honno ac ar ei hyd;
- unrhyw weithgarwch ar orlifdir (ac eithrio gweithgarwch a ganiateir) o fewn 8m i brif afon nad yw'n un llanw, strwythurau amddiffyn rhag llifogydd neu geuffos ar yr afon honno, neu o fewn 16m i brif afon llanw, strwythurau amddiffyn rhag llifogydd neu geuffos ar yr afon honno sy'n debyg o ddargyfeirio neu rwystro llifddwr, i ddifrodi unrhyw waith rheoli afon neu i effeithio ar ddraenio
- unrhyw weithgarwch o fewn 16m i waelod amddiffynfeydd môr sy'n debyg o —
  - beryglu sefydlogrwydd, achosi difrod neu ostwng effeithlonrwydd yr amddiffynfa honno
  - ymyrryd gyda mynediad y rheoleiddiwr at yr amddiffynfeydd môr ac ar eu hyd;
- unrhyw weithgarwch o fewn 8 metr i waelod yr amddiffynfa bell sy'n debyg o—

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Arbennig Newydd

- beryglu sefydlogrwydd, achosi difrod neu ostwng effeithlonrwydd yr amddiffynfa honno, neu
- ymyrryd gyda mynediad y rheoleiddiwr at yr amddiffynfeydd môr ac ar eu hyd;
- unrhyw chwarela neu gloddio o fewn 16 metr i waelod amddiffynfa bell sy'n debyg o achosi difrod neu beryglu sefydlogrwydd yr amddiffynfa honno
- unrhyw chwarela neu gloddio o fewn 16 metr i brif afon neu unrhyw strwythurau amddiffyn rhag llifogydd neu geuffos ar yr afon honno sy'n debyg o achosi difrod neu beryglu sefydlogrwydd glannau'r afon honno.

Mae cyfarwyddyd pellach ac esboniad o ddiffiniadau i'w gweld yn yr adran cyfarwyddyd gweithgareddau perygl llifogydd ar ein gwefan.

Sylwer: hwyrach y byddwch chi angen trwydded ar wahân ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch arfaethedig yn ystod y cyfnodau adeiladu (e.e. sgaffaldiau, byndio, argaeau coffr ayyb.).

**Mae rhai gweithgareddau perygl llifogydd wedi'u heithrio neu yn rhydd o'r angen am drwydded o dan y rheoliadau.** Mae gwybodaeth bellach a chyfarwyddyd ar eithriadau a gweithgareddau sy'n rhydd o'r angen am drwyddedi'w gweld ar ein gwefan.

#### 4. Ynglŷn â'r safle/tir

Mae angen i ni allu adnabod yn rhwydd ble y bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei gynnal. Er mwyn gwneud hyn, byddai'n ddefnyddiol pe allech chi ddarparu cymaint o fanylion â phosibl, gan gynnwys:

- lleoliad y safle (cyfeiriad llawn/cod post);
- cyfeirnod grid cenedlaethol (12 ffigur);
- Enw'r brif afon;

Mae angen i ni fod yn sicr hefyd bod eich cais am waith ar 'brif afon ddynodedig' ([Map Prif Afon](#)). Os oes gennych amheuaeth, dylech gysylltu â ni i wirio cyn cwblhau'ch cais.

Rhaid i chi ein cyngori ni o'ch buddiant yn y tir ble y bydd y gwaith yn cael ei gynnal (er enghraifft os ydych chi'n dirfeddiannwr neu denant). Os nad ydych chi'n berchen ar y tir eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau caniatâd gan y tirlfeddiannwr cyn i'r gwaith ddechrau. Nid yw cyhoeddi Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd yn eithrio'r angen i chi sicrhau unrhyw ganiatadau eraill sy'n angenrheidiol i fynd ar y tir, neu i gynnal y gwaith.

**Sylwer:** Nid yw perchnogaeth neu unrhyw fuddiant cyfreithiol arall yn y safle ymgeisio yn ofyniad ar gyfer cais a wneir yn briodol. Mae'r wybodaeth ar berchnogaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen gais at ddibenion gwybodaeth yn unig. Fe allai'r wybodaeth hon, serch hynny, gynorthwyo yng nghyfnod pennu'r ceisiadau

hynny ble y mae CNC yn dueddol o orfodi amodau gweithredol neu gynnal a chadw parhaus

### 5. Disgrifiad a diben y gwaith arfaethedig

Mae'n bwysig eich bod chi'n disgrifio'r gwaith yn gywir yn eich cais. Dywedwch wrthym ni beth yw diben y gwaith a nifer yr strwythurau yr ydych chi angen caniatâd ar eu cyfer. Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen a rhowch gyfeirnod ar gyfer y ddogfen hon.

### 6. Cynlluniau a thrawsluniau

Er mwyn ystyried eich cynigion byddwn ni angen gweld cynlluniau a lluniadau priodol, yn ddelfrydol wedi'u tynnu gan beiriannydd neu syrfëwr cymwys, yn dangos Datwm Ordans Newlyn (yr uchder uwchlaw lefel môr).

Darparwch gopi o'r holl luniadau perthnasol, y gallwch chi eu hanfon yn electronig trwy e-bost (fformat pdf) neu ar gopi caled. Ni ddylai'r lluniadau fod yn fwy na maint A0, wedi'u nodi yn glir gyda chyfeirnod a rhaid iddynt gynnwys yr isod:

- **Cynllun lleoliad**

Dylid cael cynllun ar raddfa briodol ac wedi'i seilio ar fap Arolwg Ordans. Rhaid iddo ddangos yn glir lleoliad cyffredinol y safle a chynnwys nodweddion cyffredinol. Rhaid iddo nodi'n glir hefyd y cwrs dŵr neu gyrff dŵr eraill yn yr ardal amgylchynol.

- **Cynllun safle (cytundeb cyffredinol)**

Rhaid i chi ddarparu cynllun o'r safle yn dangos:

- y safle cyfredol, gan gynnwys unrhyw gwrs dŵr;
- eich cynigion;
- safle unrhyw strwythurau a allai ddylanwadu ar hydroleg afon yn lleol, gan gynnwys pontydd, pibellau a dwythellau, ffyrdd o groesi'r cwrs dŵr, ceuffosydd a sgriniau, argloddiau, waliau, gollyngfeydd ac yn y blaen; ac
- ysgolion pysgod cyfredol neu strwythurau sydd wedi'u bwriadu i ganiatáu i bysgod basio i fyny'r afon ac i lawr yr afon.

Dylid tynnu'r cynllun i raddfa briodol, a rhaid nodi hynny'n glir.

- **Trawstoriadau**

Ble y mae'r gwaith yn llechfeddiannu unrhyw gwrs dŵr, dylech ddarparu trawstoriadau i fyny'r afon ac i lawr yr afon i'r gwaith arfaethedig. Dylai trawstoriadau gael eu tynnu fel petaent yn edrych i lawr yr afon ar y cwrs dŵr a dylai gynnwys manylion nodweddion cyfredol ac arfaethedig a lefelau dŵr.

- **Adrannau hydredol**

Rydym angen adrannau hydredol wedi'u cymryd ar hyd llinell ganol y cwrs dŵr. Rhaid i'r rhain ddangos y nodweddion cyfredol ac arfaethedig gan gynnwys lefelau dŵr, lefelau gwely a strwythurau. Dylent ymestyn i fyny'r afon ac i lawr yr afon o'r gwaith arfaethedig.

- **Lluniadau manwl**

Diben y rhain yw dangos manylion y nodweddion cyfredol ac arfaethedig fel yr isod:

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Arbennig Newydd

- Lleoliad unrhyw bibellau neu geblau gwasanaeth arfaethedig a allai effeithio ar gynnal y cwrs dŵr yn y dyfodol.
- Manylion unrhyw goed, llwyni, gwrychoedd, pyllau neu ardal gwlypdir a allai gael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig.
- Manylion unrhyw blannu neu hadu.
- Argaeau a choredau. (Rydym angen cynllun yn dangos graddau'r dŵr sy'n cronni (yn cael ei gadw yn ôl) o dan amgylchiadau arferol a llifogydd er mwyn i ni allu asesu effaith bosibl ar dir wrth ymyl yr afon.)

### 7. Manylion Adeiladu

Rydym angen gwybod pa bryd yr ydych chi'n bwriadu gwneud y gwaith a pha mor hir y bydd yn cymryd yn eich barn chi. Pan fyddwch chi'n cynllunio'r gwaith mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod wedi caniatáu digon o amser i ni ystyried eich cais.

Byddwn angen gwybod sut yr ydych chi'n bwriadu cynnal y gwaith i sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Bydd angen i chi baratoi 'datganiad dull' sy'n amlinellu pa fesurau fesurau fyddwch yn gweithredu i leihau'r aflonyddwch a gostwng unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.

Mae cyfarwyddyd atal llygredd ar gael ar ein gwefan.

Sylwer y gallai fod angen trwyddedau ar wahân arnoch chi ar gyfer y gwaith parhaol ac unrhyw waith dros dro nad ydynt yn ffurfio rhan o'r gwaith parhaol. Mewn rhai achosion, gallai fod yn bosibl ymgeisio am y gwaith parhaol a gwaith dros dro o fewn un cais. Gallai gwaith dros dro gynnwys, er enghraifft, sgaffaldiau, argaeau coffr (llociau dwrglos) ar draws cwrs dŵr, neu ddargyfeiriadau dŵr dros dro wrth i waith gael ei wneud. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, rydym yn argymhell eich bod chi'n cysylltu â ni i drafod ymhellach.

### 8. Buddiannau Eraill Cyfoeth Naturiol Cymru

Ticiwch y bocsys priodol.

Os byddwch hi'n ateb 'Bydd' i unrhyw un o'r cwestiynau, fe fyddwch chi yn ôl pob tebyg angen trwyddedau neu ganiatadau ychwanegol gennym ni cyn i chi ddechrau ar y gwaith. Dylech sicrhau bod gennych ddigon o amser i dderbyn yr holl gymeradwyaethau angenrheidiol cyn i chi ddechrau gweithio. Gallai unrhyw gymeradwyaethau/ cysyniadau heb eu penderfynu oedi'r gwaith.

### 9. Statws Cynllunio

Ticiwch ba sefyllfa sy'n berthnasol i chi a ble fo'n briodol, darparwch y cyfeirnod caniatâd cynllunio sydd gennych chi neu yr ydych chi'n ymgeisio amdano sy'n perthyn i'r cais yma. Os nad yw'n glir a oes angen caniatâd cynllunio, byddem yn argymhell siarad â'ch awdurdod perthnasol i gael eglurhad. Cofiwch nad yw'ch Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatâd cynllunio yn gwarantu y bydd Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd yn cael ei gyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac nid yw cyhoeddi Trwydded Gweithgarwch Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwarantu rhoi caniatâd cynllunio.

### 10. Cynnal yr strwythur(au)

Mae angen i ni wybod pwy fydd yn gyfrifol am waith cynnal a chadw yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl i'r gwaith orffen.

### 11. Effeithiau ar yr amgylchedd

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, felly rhaid i ni ystyried effeithiau amgylcheddol eich cais.

#### Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae'n bwysig fel rhan o'r broses ymgeisio bod eich cynigion yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn cadw at nodau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gallai rhai gweithgareddau achosi i gorff dŵr ddirywio yn ei statws Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr neu atal ei amcanion ecolegol rhag cael eu bodloni.

Er mwyn cyflawni nodau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, rhaid i ni sicrhau bod unrhyw gynllun neu weithgarwch newydd yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn cydymffurfio. Os oes gennych amheuaeth, dylech gysylltu â ni i drafod unrhyw ofyniad i gynnal asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr cyn i chi anfon eich cais atom ni.

Gweler ein dogfen 'Perchnogion eiddo ar lan afon - gwybod eich hawliau a'ch cyfrifoldebau' am ragor o wybodaeth ar y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gellir ei lawrlwytho trwy ddilyn y ddolen a ganlyn

<http://www.naturalresources.wales/flooding/managing-flood-risk/riverside-property-owners-know-your-rights-and-responsibilities/?lang=cy>

#### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

O dan Reoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd a deddfwriaeth Genedlaethol, rhaid i ni sicrhau nad yw unrhyw Weithgareddau Perygl Llifogydd arfaethedig yn cael effaith negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar unrhyw safle neu rywogaethau gwarchoddedig, gan gynnwys:

- ardaloedd cadwraeth arbennig;
- ardaloedd gwarchodaeth arbennig;
- safleoedd RAMSAR rhestredig;
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- rhywogaethau gwarchoddedig Ewropeaidd ac yn genedlaethol.

Gallai unrhyw weithiau arfaethedig o fewn, neu gerllaw, safle Ewropeaidd fod yn amodol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

Mae gwybodaeth ar safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig i'w gweld ar geo-portal Llywodraeth Cymru yn <http://lle.wales.gov.uk/home> ac ar wefan Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn [www.nbn.org.uk](http://www.nbn.org.uk).

Mae gwybodaeth fwy lleol i'w chael o wefan eich Canolfan Cofnodion Lleol yn [www.nbn.org.uk/Tools-Resources/BusinessResources/Local-Record-Centres/LRC-database.aspx](http://www.nbn.org.uk/Tools-Resources/BusinessResources/Local-Record-Centres/LRC-database.aspx)

#### Asesiad Effaith Amgylcheddol



## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Arbennig Newydd

Efallai y bydd angen i chi gynnal gwerthusiad amgylcheddol i asesu effeithiau eich gwaith. Dylech gysylltu â ni cyn anfon eich cais er mwyn i ni allu eich cynghori chi ar hyn. Os na wnewch chi, fe allai oedi'ch cais.

Dylai eich gwerthusiad amgylcheddol adnabod ac ystyried pob effaith tebygol ar yr amgylchedd. Dylech ystyried yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae'r gwaith yn eu cael ar safleoedd a nodweddion o ddiddordeb a rhywogaethau o werth penodol. Dylai hefyd gynnwys unrhyw fesurau i'w gweithredu i leihau'r aflonyddwch a gostwng unrhyw effeithiau niweidiol wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ynghyd ag amlinellu unrhyw gyfleoedd i wella gwerth amgylcheddol y safle. Gallai hyn gynnwys creu nodweddion dŵr, plannu coed a llwyni a fyddai fel arfer yn tyfu ar y safle, darparu blychau nythu adar neu greu mannau cynaliadwy i fywyd gwylt fyw.

Os, fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio, ein bod ni'n gofyn am werthusiad amgylcheddol, rhaid i chi ei anfon atom ni gyda'r holl ddogfennau atodol eraill sydd eu hangen arnom ni.

### Arall

Os yw'r safle yn disgyn o fewn, neu wrth ymyl, neu yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â, safle gwarchod natur, safle daearegol neu safle hanesyddol, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod eich cynigion cyn i chi anfon eich cais atom ni. Rhaid i ni ystyried effeithiau ceisiadau ar nodweddion amgylcheddol sensitif gan gynnwys Safleoedd Natur a Daearegol Lleol. Rhaid i ni ystyried Henebion Rhestredig hefyd. Ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar heneb gofrestredig hwyrach y bydd angen caniatâd gan Cadw.

Efallai y byddwch chi eisiau cysylltu â'r sefydliadau hyn eich hun i gael eu barn ar eich cais.

### 12. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni.

### 13. Cyfrinachedd

Ni ddylech dicio'r bocws hwn oni bai eich bod chi'n gwbl sicr eich bod chi'n dymuno i'r wybodaeth fod yn gyfrinachol. Gallai hyn oedi eich cais. Mae gwybodaeth gyfrinachol yn wybodaeth sy'n fasnachol neu'n ddiwydiannol gyfrinachol mewn perthynas ag unrhyw unigolyn. Gallai gwybodaeth gael ei hymatal rhag cofrestrau cyhoeddus ble y mae rheoleiddiwr o'r farn y gallai fod yn fasnachol neu'n ddiwydiannol gyfrinachol. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid gosod datganiad ar y gofrestr yn nodi bodolaeth y wybodaeth honno.

Mae cyfarwyddyd ar gyfrinachedd yn 'Core Environmental permitting guidance' a gyhoeddir gan Defra ac mae ar gael trwy ein tudalennau gwe cyfarwyddyd.

Cofiwch gynnwys copi o'ch datganiad ategol sy'n nodi pam eich bod chi'n gofyn am gyfrinachedd a pha wybodaeth y credwch chi y dylid ei chadw'n gyfrinachol. Rydym

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Arbennig Newydd

yn eich cynghori chi i gael trafodaeth cyn-ymgeisio gyda'r staff ardal cyn penderfynu a yw unrhyw beth yn wybodaeth gyfrinachol.

Yna bydd yn rhaid i ni asesu'ch datganiad a chan hynny bydd cynnydd eich cais yn cymryd mwy o amser.

### 14. Diogelwch cenedlaethol

Cofiwch amgáu gyda'ch cais lythyr yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at weinidogion Cymru i hawlio diogelwch cenedlaethol dros eich cais.

Mae cyfarwyddyd ar ddiogelwch cenedlaethol yn 'Core Environmental permitting guidance' a gyhoeddir gan Defra ac ar gael trwy ein tudalennau gwe cyfarwyddyd.

### 15. Datganiad

Trwy lenwi'r adran hon rydych yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennych, cyn belled ag y gwyddoch, gan gynnwys y map ac unrhyw ddogfennau ategol, yn gywir. Ni fyddwn yn derbyn cais heb i'r adran hon gael ei llenwi.

Rhaid i berson perthnasol wneud y datganiad. Mae person perthnasol yn golygu pob ymgeisydd. Os ydych yn ymgeisio fel cwmni, gall y person cymwys fod yn gyfarwyddwr, yn ysgrifennydd y cwmni neu'n gyflogai a restrir ar benodiadau cyfredol yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Os dymunwch i reolwr neu gyflogai arall na chânt eu rhestru ar benodiadau cyfredol yn Nhŷ'r Cwmnïau lenwi'r datganiad ar ran y cwmni, byddwn angen cadarnhad (llythyr neu e-bost) gan berson perthnasol, hynny yw swyddog o fewn y Cwmni yn cadarnhau bod gan y person hwnnw'r awdurdod i lenwi'r datganiad.

Os ydych yn ymgeisio fel cwmni a chanddo ymddiriedolwyr, rhaid i'r holl ymddiriedolwyr lenwi'r datganiad.

### 16. Ble i anfon eich cais

Anfonwch eich cais wedi'i lanw at y swyddfa ardal berthnasol ar gyfer lleoliad y gweithgarwch arfaethedig.

### 17. Sut i gysylltu â ni

Os ydych chi angen help wrth lanw'r ffurflen hon, cysylltwch â'r unigolyn â'i hanfonodd atoch chi neu cysylltwch â ni ar y manylion isod.

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am i 5pm)

E-bost: [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk) /  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Gwefan: [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk) / [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ran B8 Gweithgarwch Perygl Llifogydd Trwydded Arbennig Newydd

Ticiwch y bocs os ydych chi eisiau i'r holl ohebiaeth yn ymwneud â'r cais hwn gael ei hanfon trwy e-bost.

Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn Rhan 1 'amdanoch chi' i e-bostio'r holl wybodaeth gysylltiedig neu hysbysiadau yn ymwneud â'r drwydded.